



## Pecyn Croeso Llwybrau TAR Gwyddoniaeth: 2023-24

Helô bawb

Llongyfarchiadau ar ennill eich lle naill ai ar y rhaglen Bioleg gyda Gwyddoniaeth, Cemeg gyda Gwyddoniaeth neu Ffiseg gyda Gwyddoniaeth. Croeso cynnes iawn!

Bydd yn flwyddyn brysur, gyffrous a heriol. Bydd y tasgau y manylir arnynt isod yn eich helpu i baratoi ar gyfer y cwrs. Cwblhewch nhw cyn i chi ddechrau'r cwrs ym mis Medi.

### 1) CADARNHAU EICH LLE

Pan dderbyniwch y pecyn hwn, anfonwch e-bost ataf yn [cpugh2@cardiffmet.ac.uk](mailto:cpugh2@cardiffmet.ac.uk) i dadarnhau y byddwch yn dechrau gyda ni ym mis Medi 2023.

### 2) YMGYFARWYDDWCH Â'R MANYLEBAU TGAU A SAFON UWCH

Cyrchwch faes pwnc Gwyddoniaeth [gwefan CBAC](#). Darganfyddwch fwy am yr ystod o gymwysterau Gwyddoniaeth a gynigir yng Nghymru ar lefel TGAU.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn y cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth (Dwyradd), lle mae arholiad yn y tri gwyddoniaeth yn cyfrannu at farc terfynol o ddau radd. Mae TGAU Bioleg, Cemeg a Ffiseg yn cael eu cyfeirio ato'n aml fel 'gwyddorau ar wahân' lle mae modiwlau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y cynnwys dwbl i roi tri gradd TGAU. Mae rhai ysgolion hefyd yn cynnig TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol ac fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae ganddo ffocws mwy galwedigaethol.

Cynigir pob papur arholiad ar lefel Sylfaen (graddau C – G) a Haen Uwch (graddau A\* - D) a mae'r fanyleb yn nodi'n glir y cynnwys sydd ei angen ar haen uwch yn unig.

**Argraffwch a chwblhewch y [cyn-bapurau](#) canlynol ar gyfer pob un o'r tri maes pwnc gwyddoniaeth:**

**TGAU HAF 2022 - GWYDDONIAETH: BIOLEG UNED 1 GWYDDONIAETH 1H - PAPUR CWESTIWN**  
**TGAU HAF 2022 - GWYDDONIAETH: CEMEG UNED 2 GWYDDONIAETH 1H - PAPUR CWESTIWN**  
**TGAU HAF 2022 - GWYDDONIAETH: FFISEG UNED 3 GWYDDONIAETH 1H - PAPUR CWESTIWN**

Wrth i chi weithio trwy'r papurau TGAU, meddyliwch ac ysgrifennwch rai camsyniadau y credwch y gallai fod gan ddisgyblion gyda rhai o'r cwestiynau. Byddwch yn barod i ddod â'r papurau hyn a'ch syniadau gyda chi ym mis Hydref. Mae bod yn ymwybodol o, a datgelu, camsyniadau disgyblion yn hanfodol i helpu i gynllunio addysgu a dysgu ym MHOB dosbarth. **Bydd gwybodaeth pwnc dda ar y lefel hon yn ffactor hanfodol i flwyddyn lwyddiannus.** Mae'n fwyaf tebygol y bydd ysgolion yn disgwyl ichi allu dysgu pob un o'r tri phwnc gwyddoniaeth hyd at a chan gynnwys TGAU, felly ceisiwch nodi unrhyw fylchau yn eich gwybodaeth pwnc. Defnyddiwch y cynlluniau marciau, sydd hefyd ar gael ar wefan CBAC, i'ch cefnogi chi ac i ddechrau cael mewnwelediad i feddyliau'r rhai sy'n ysgrifennu cwestiynau arholiad.

Hefyd ymgylfarwyddwch â'r fanyleb a'r tasgau ymarferol sy'n ofynnol ar gyfer eich arbenigedd pwnc ar Safon Uwch. Edrychwch ar gyn-bapurau Safon UG Blwyddyn 12 a gwiriwch eich gwybodaeth gyfredol ar y lefel hon.

### 3) GWNEWCH RYWFAINT O DDARLLEN

E.e. porwch i mewn i un o'r canlynol (neu ychwanegiadau cynharach) sy'n edrych ar addysgu uwchradd yn gyffredinol

- Capel, S., Leask, M. and Younie, S. (2019) *Learning to teach in the secondary school*,

8<sup>fed</sup> arg. Llundain: Routledge.

- Kyriacou, C. (2009) *Effective teaching in schools: theory and practice*, 3<sup>ydd</sup> arg. Cheltenham: Nelson Thornes.
- Muijs, D. and Reynolds, D. (2017) *Effective teaching: evidence and practice*, 4<sup>ydd</sup> arg. Llundain: Sage.

Hefyd, ymglyfarwyddwch â gwefan Hwb ac â'r dogfennau canlynol gan Lywodraeth Cymru:

Rhaglen Astudio Gwyddoniaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru (2008)  
y Cwricwlwm Newydd i Gymru sydd i fod i gael ei weithredu yn 2022, gan gynnwys y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg (AoLE) a'r fframweithiau sgiliau trawsgwricwlwaidd sydd eisoes ar waith.

#### **4) GWELD RHYWFAINT O ADDYSGU GWYDDONIAETH**

Ceisiwch gael mwy o brofiad o arsylwi/cefnogi mewn ysgol uwchradd. Canolbwyntiwch ar sut mae disgyblion yn rhyngweithio â'i gilydd a chyda'r athro a sut mae dysgu'n cael ei reoli. Os gallwch chi, arsylwch rai gwersi ymarferol. Sut mae lechyd a Diogelwch yn cael ei reoli? Sut y cysylltir yr ymarferol a theori yn yr ystafell ddosbarth Gwyddoniaeth?

Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi ym mis Medi a gweithio gyda chi ar yr adeg gyffrous iawn hon ar gyfer addysg yng Nghymru.

Mwynhewch y tasgau a mwynhewch yr haf. Dymuniadau gorau

Ceri

Dr Ceri Pugh Arweinydd Rhaglen

